OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 182

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

**Safonau sy'n benodol gymwys**

**3.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi([1]) Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r personau a restrir yn Atodlen 6 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau a bennir o dan reoliad 2.

(2) Ond nid awdurdodir y Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i—

(a) Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a ganlyn—

(i) 94 i 140,

(ii) 145 i 148,

(iii) 161 i 166;

(b) Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a ganlyn—

(i) 1 i 93,

(ii) 144,

(iii) 149 i 160.

(**1**) *Gweler* adran 67 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.